



CYNGOR SIR Y FFLINT GRANT Y GIST GYMUNEDOL

NODIADAU CANLLAWIAU

1. BETH YW'R GIST GYMUNEDOL?

Mae'r Gist Gymuned yn gynllun grant a ariennir gan Gyngor Sir y Fflint ac a weinyddir gan Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint i gefnogi gweithgareddau cymunedol yn y sir.

Rhoddir blaenoriaeth i grwpiau cymunedol lleol sy'n llai o faint.

2. PWY ALL WNEUD CAIS?

Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr:

- Wedi eu lleoli yn Sir y Fflint ac nid dim ond yn gweithredu yn Sir y Fflint.
- â chyfansoddiad ffurfiol ac nid er elw;
- Yn annibynnol o gyrrff statudol neu gyhoeddus;
- Hunanlywodraethol h.y. ddim yn atebol i gorff arall;
- Bod â chyfrif banc sydd angen o leiaf ddau lofnodwr heb gysylltiad; ac
- Mae'n rhaid iddynt weithredu heb unrhyw gyfyngiad ar aelodaeth.

Ni allwn roi grantiau i:

- Na all y Cyngor gefnogi Terfysgaeth na grwpiau Eithafol;
- Sefydliadau masnachol / sy'n gwneud elw;
- Sefydliadau sy'n derbyn arian statudol i ddarparu gwasanaeth statudol e.e. Ysgolion. (Arian cyhoeddus i ddarparu/cyflwyno gwasanaeth a gomisiynir sy'n alinio gyda deddfwriaeth bresennol ac/neu wasanaeth statudol). Nid yw hyn yn cynnwys sefydliadau sy'n derbyn Arian Craidd o Gyngor Sir y Fflint;
- Unigolion neu gronfeydd wedi'u sefydlu i fod o fudd i unigolyn;
- grwpiau newydd neu heb eu sefydlu h.y. dim chyfansoddiad;
- Ymgeiswyr sydd eisoes wedi derbyn hyd at £1,000 gan y Gist Gymunedol yn y 3 blynedd ariannol ddiwethaf.

3. BETH Y GELLIR DEFNYDDIO'R GRANT AR EI GYFER?

Nod y grant yw cefnogi mentrau un tro megis:

- Prosiectau cyfalaf bach er enghraifft, atgyweirio adeiladau a diweddaru nodweddion a gosodiadau mewnol.
- Digwyddiadau Cymunedol
- Offer ond nid nwyddau traul*
- Astudiaethau Dichonolrwydd
- Cyhoeddusrwydd / marchnata
- Hyfforddiant a digwyddiadau / cyrsiau ymwybyddiaeth



- Ymateb i argyfyngau cenedlaethol, rhanbarthol neu leol
- Adferiad o argyfyngau cenedlaethol, rhanbarthol neu leol



*Mae'n rhaid i unrhyw eiddo a brynwyd gyda'r grant barhau'n eiddo i'r grŵp a rhaid iddynt fod ar gael ar gyfer mwy nag un aelod.

* Os bydd sefyllfa argyfyngus fel y diffinnir gan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 gellir ail-bwrpasu'r grant hwn a rhoddir blaenoriaeth i geisiadau sy'n cyfrannu i'r ymateb

4. BETH NAD YW'N CAEL EI GYNNWYS YN Y GRANT?

- Prosiectau cyfredol sydd eisoes wedi dechrau;
- Prosiectau sy'n cael eu hystyried yn rhan o gostau dyddiol arferol y sefydliadau;
- Prosiectau sydd wedi'u lleoli tu allan i Sir y Fflint.

Er enghraifft:

- Prosiectau cyfalaf mawr mewn perthynas â gwaith adeiladu neu beirianeg sy'n creu ased megis estyniad i eiddo, adeiladu cyfleuster newydd, ailwynebu a gwaith tir.
- Unrhyw welliannau cyfalaf (gwelliannau cyfalaf bach a mawr) i addoldai neu lefydd sy'n eiddo i gyrff crefyddol.
- Prosiectau cyfalaf sy'n gyfrifoldeb i asiantaethau statudol neu gyhoeddus
- Nwyddau traul h.y. eitemau â chyfnod oes byr e.e. papur, inc argraffydd, offer ysgrifennu ac ati.
- Arlwyyo a Lletygarwch
- Codi arian a rhoi gwobrau gan gynnwys medalau, tystysgrifau neu dlysau.
- Teithiau
- Gweithgareddau sy'n hyrwyddo credoau crefyddol neu wleidyddol penodol
- Prosiectau sydd eisoes wedi'u hariannu'n llawn gan ffynonellau eraill
- Nwyddau a gwasanaethau a brynwyd eisoes - mae'n rhaid ystyried dyddiadau cynnig y grant wrth gyflwyno cais
- Costau ailadroddus (e.e. llogi llungopïwr, llogi ffôn, cyhoeddiadau rheolaidd, taliadau benthyciad)
- Costau grŵp neu gostau eiddo heblaw am logi cyfleusterau un tro – mae hyn yn cynnwys gwasanaethau (e.e. nwy, trydan, dŵr)
- Cyflogau, treuliau neu ffioedd proffesiynol
- Nwyddau ail-law oni bai y cymeradwywyd gan Gyngor Sir y Fflint
- Cynigion a fyddai'n gwrthdaro â pholisi cenedlaethol neu leol sy'n bodoli eisoes.
- Prynu eitemau offer personol
- Aelodaeth
- Cefnogaeth ariannol i unigolion

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i hepgor yr enghreifftiau hyn mewn achos o geisiadau Ymateb neu Adferiad o Argyfyngau



5. PA MOR AML Y DYRANNIR Y GRANTIAU?

Ystyrir ceisiadau drwy gydol y flwyddyn.

Gellir dyfarnu hyd at £1,000 o grant y Gist Gymunedol mewn unrhyw gyfnod 3 blynedd (3 blynedd ariannol).

Os yw Sefydliad wedi derbyn £1,000 dair blynedd yn olynol, bydd yn rhaid iddo aros blwyddyn ariannol arall cyn ailymgeisio am ragor o gyllid.

6. BETH YW'R UCHAFSWM Y GALL FY SEFYDLIAD WNEUD CAIS AMDANO?

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn ariannu hyd at 75% o gyfanswm costau prosiect i uchafswm o £1,000.

Os ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer TAW, mae'n rhaid i chi ddarparu eich rhif TAW. Noder ni all y Cyngor dalu elfen TAW eich cais.

7. BETH SYDD EI ANGEN I WNEUD CAIS?

I fod yn gymwys, bydd angen i sefydliad ddarparu:

- Cyfansoddiad wedi'i lofnodi neu reolau wedi'u mabwysiadu gan eich Grŵp ac mae'n rhaid i chi eu cynnwys gyda'ch cais.
- Tystiolaeth o gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu wedi'i amgáu. Dylai hyn fod ar ffurf y banc neu'r gymdeithas adeiladu ddiweddaraf. Y cyfrifon blyneddol diweddaraf neu ddatganiad o incwm a gwariant.
- Dyfynbrisiau ar gyfer yr eitemau fydd yn cael eu prynu gyda'r grant – argymhellwn y dylid defnyddio cyflenwyr lleol lle bo modd.

Mae'n rhaid cwblhau holl adrannau'r ffurflen gais a chyflwyno'r wybodaeth uchod er mwyn i ni allu ystyried y cais.

Sicrhewch fod gennych chi'r ffurflen gais ddiweddaraf. Os hoffech chi wirio hyn, cysylltwch â Swyddog Cyllido, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, ar 01352 744004.

NI FYDD ceisiadau nad ydynt yn cynnwys y dogfennau gofynnol fel y nodir yn Rhestr Wirio Cyflwyno Cais yn cael eu hystyried ar gyfer grant.

8. SUT YR ASESIR Y CEISIADAU?

Pan dderbynnir ffurflen gais, byddwn yn cynnal asesiad. Wedyn fe ystyrir y cais gan banel sy'n cynnwys Cynghorydd Sir a Swyddog o Gyngor Sir y Fflint, Ymddiriedolwyr Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint a chynrychiolwyr o'r trydydd sector. Bydd y panel yn cael ei hwyluso gan Swyddog Ariannu Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint.



Mae argymhellion ar gyfer cyllid yn seiliedig ar ystod o feini prawf, sef:

- Y galw am gyllid
- Manteision Cymunedol
- Hyfywedd y prosiect
- Tystiolaeth o hunangymorth
- Maint y sefydliad

9. SUT YR HYSBYSIR YR YMGEISWYR O'R PENDERFYNIAD?

Bydd yr holl ymgeiswyr yn derbyn llythyr os yw eich cais yn llwyddiannus neu beidio.

Os yw'r cais yn **llwyddiannus**, bydd y llythyr yn cynnwys:

- Unrhyw amodau ychwanegol ar gyfer y grant, Ffurflen dderbyn. Drwy lofnodi ffurflen dderbyn mae'r ymgeisydd a'u sefydliad yn ddarostyngedig i amodau'r grant.

Sylwer: Ni wneir unrhyw daliad nes bo'r holl waith papur perthnasol y gofynnwyd amdano wedi'i gyflwyno.

Ar ôl y taliad byddwn yn gofyn am dystiolaeth o sut y darperir y prosiect fel y nodwyd yn eich cais. Gall hyn fod ar ffurf copïau o anfonebau, lluniau, ymweliad gan aelod o staff y Cyngor.

Mae'n rhaid cwblhau'r holl brosiectau neu wariant o fewn 12 mis ar ôl yr hysbysiad fod y cyllid wedi'i ddyfarnu.

Os bydd y cais yn **aflwyddiannus**, byddwch yn derbyn llythyr sy'n egluro'r rhesymau dros benderfyniad y Panel, fodd bynnag ni fyddai hyn yn eich atal rhag cyflwyno cais yn y dyfodol.

10. O BLE Y GALLAF I GAEL FFURFLEN GAIS?

Os oes arnoch chi angen ffurflen gais neu unrhyw gyngor ar sut i'w llenwi, cysylltwch â:

Swyddog Cyllido
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
CORLAN
Uned 3 Parc Busnes yr Wyddgrug
Ffordd Wreccsam
YR WYDDGRUG
Sir y Fflint
CH7 1XP

Ffôn: (01352) 744004

E-bost: Heather.hicks@flvc.org.uk



Fel arall, gellir lawrlwytho ffurflenni cais drwy'r dewis Cyfleoedd Ariannu ar wefan Cyngor Sir y Fflint. Bydd y ddolen ganlynol yn eich atgyfeirio i'r dudalen berthnasol: [Grant y Gist Gymunedol](#) Fodd bynnag, dim ond fersiwn pdf o'r Canllawiau a'r Ffurflen Gais y gallwch chi eu lawrlwytho. Os hoffech chi fersiwn Word, cysylltwch â Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint.

Ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Mae'r nodiadau canllaw a'r ffurflen gais ar gael mewn amrywiaeth o fformatau gan gynnwys Braille, print bras ac ieithoedd eraill ar gais. Gall hyn gymryd tua saith diwrnod gwaith.